

# Arweiniad i Arolygwyr
# Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024 – 2030)

## Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu): darpariaeth addysg, medrau a gwaith ar gyfer dynion mewn carchardai

Mae'r arweiniad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Estyn

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cynnwys

**Cyflwyniad ........ 1**

Gweledigaeth Estyn ........ 1

Diben yr adran arweiniad 'Sut rydym yn arolygu' ........ 1

Cefndir y polisi ........ 1

Egwyddorion ein gwaith ........ 3

Ein meddylfryd ........ 4

Disgwyliadau o ran arolygwyr ........ 4

Disgwyliadau o ran darparwyr a'u partneriaid cyflwyno ........ 5

Y Gymraeg ........ 6

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles ........ 6

**Gweithgarwch arolygu craidd ........ 8**

Dull arolygu ........ 8

Y Lle Gwaith Rhithwir ........ 8

Y tîm arolygu ........ 8

Cysylltu â'r darparwr cyn arolygiad craidd ........ 10

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm ........ 13

Yn ystod yr arolygiad ........ 14

Ar ôl yr arolygiad ........ 21

Sicrhau ansawdd arolygiadau ........ 22

# Cyflwyniad

## Gweledigaeth Estyn

Gweledigaeth Estyn yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.

## Diben yr adran arweiniad 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r adran hon yn amlinellu ein hymagwedd at arolygu darpariaeth addysg, medrau a gwaith yng ngharchardai dynion o 2025. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a'r methodolegau arolygu. Defnyddir y term 'darparwr' trwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at weithgareddau addysg, medrau a gwaith y carchar.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr ag arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer darpariaeth addysg, medrau a gwaith yng ngharchardai dynion, sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall darparwyr a phartneriaid ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio a'u helpu i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a gwella eu hunain.

Pan mae'r arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn cynnwys ciplun ar yr arfer hon yn rhan o'r adroddiad arolygu. Pan mae'r arolygiad yn nodi pryderon pwysig o ran safonau, ansawdd addysg a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant trwy ei phroses ar gyfer adolygiadau cynnydd annibynnol (ACAau). Gellir dod o hyd i Arweiniad ar ACAau ar wefan Carchardai AEF.

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

## Cefndir y polisi

Caiff arolygiadau o sefydliadau o fewn ystâd Carchardai Ei Fawrhydi (CEF) eu llywodraethu gan adrannau 5A a 43 ac Atodlen A1 Deddf Carchardai 1952 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r darpariaethau hyn yn amlinellu cyfrifoldebau Prif Arolygydd Carchardai EF i arolygu

- carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, a chanolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru a Lloegr;
- cyfleusterau gwarchodaeth llys yng Nghymru a Lloegr a hebryngwyr i'r cyfleusterau hyn, ac oddi wrthynt; a
- chanolfannau symud mewnfudwyr, cyfleusterau dal yn y tymor byr, llety cyn gadael a

threfniadau hebrwng ledled y Deyrnas Unedig.

Mae Atodlen IA Deddf Carchardai 1952 yn amlinellu pwerau a dyletswyddau pellach y Prif Arolygydd Carchardai i gydweithredu ac ymgynghori ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill a chyrff eraill i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau a sicrhau nad yw arolygiadau gan gyrff penodol eraill yn rhoi baich afresymol ar sefydliadau o fewn ei gylch gwaith.

O'i dechrau[1], mae Adran 57 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn rhoi cyfrifoldeb am arolygu addysg bellach a hyfforddiant sy'n cael eu hariannu neu'u sicrhau gan Weinidogion Cymru i'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae Adran (3) yn mynnu bod rhaid i'r Prif Arolygydd gyhoeddi adroddiad am bob arolygiad a gynhelir o dan yr adran hon, yn cynnwys barn ar—

(a) ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a arolygwyd,

(b) y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'r hyfforddiant dan sylw, a

(c) ph'un a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r darparwr addysg neu hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.

I roi'r darpariaethau hyn ar waith, bydd tîm Estyn yn cael gwahoddiad gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi i gymryd rhan mewn ymarfer, y gallai Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi gyhoeddi neu beidio â chyhoeddi i'r carchar neu'r cyhoedd. Gelwir rhai arolygiadau heb fawr ddim rhybudd os yw data Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn nodi risgiau y maent yn dymuno'u harchwilio.

Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r arolygiad. Yn ystod yr arolygiadau hyn, mae Estyn yn gweithio yn unol â fframwaith disgwyliadau ar gyfer carchardai, ac oddi mewn iddo, ac yn llunio barnau ysgrifenedig yn unol â manyleb Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd Cofnodol (AC) yn gyfrifol am gynnal a rheoli ymglymiad Estyn yn yr arolygiad, ac am lunio adroddiad arolygu ar ddarpariaeth addysg, medrau a gwaith yn y sefydliad sy'n destun arolygiad, i'w gynnwys yn adroddiad cyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi am yr arolygiad.

Dylai arolygwyr fod yn gyfarwydd â fframwaith ac arweiniad arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn ogystal â'r 'Disgwyliadau' ar gyfer gwahanol fathau o garcharu y mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn eu defnyddio i'w harwain yn ystod arolygiad.

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol,

[1] Hyd nes dechrau'r darpariaethau ansawdd yn y Ddeddf hon, y sail gyfreithiol ar gyfer arolygiad fydd adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 https://www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru
- Gwell Dysgu, Gwell Cyfleoedd: darparu cyfleoedd dysgu a sgiliau mewn carchardai https://www.gov.wales/better-learning-better-chances-prison-learning-and-skills-provision-html

## Egwyddorion ein gwaith

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn defnyddio dull yn canolbwyntio ar y dysgwr ar gyfer unrhyw weithgarwch ac ymgysylltu
- bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu
- yn canolbwyntio pob gweithgaredd ar y darparwr penodol, ac yn addasu ein dulliau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau teilwredig i werthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau craidd, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad 'beth' rydym yn ei arolygu a 'sut', ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella yn unig.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod ein gweithgarwch a'n hymgysylltu yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod ein gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennau a pharatoi gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau craidd yn benodol, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys y cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau gwella dewisol y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu, lle bo'n briodol

## Ein meddylfryd

Dyma ddull Estyn o ran gweithgarwch arolygu ac ymgysylltu:

**Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn ystyried y dystiolaeth a'i harwyddocâd i ddarparu barn onest, gredadwy a chywir am gryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w gwella.

**Cefnogol** – rydym yn gweithio i arwain darparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddysgwyr. Rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Rydym yn gyfeillgar ond bob amser yn broffesiynol o ran ein hymagwedd. Rydym yn cefnogi diwygio addysgol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon â darparwyr a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

**Myfyriol** – mae gennym feddwl agored. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn ystyriol, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod â phobl eraill yn y tîm.

**Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau a'n cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau disgwyliedig cod ymddygiad Estyn.

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phobl ifanc ac

oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a chadarn
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'r gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl ddysgwyr i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr a'u partneriaid cyflwyno

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr, darparwyr a'u partneriaid cyflwyno yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- darparu tystiolaeth sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau, yn ôl yr angen
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y darparwr
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r Arolygydd Cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- tynnu sylw'r Arolygydd Cofnodol at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai neu'r uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i leihau tarfu a straen trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle

- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- peidio â gwneud recordiadau, tynnu lluniau na gwneud fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys gwerthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad; dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng neu offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwyr yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltu, er enghraifft cyn eu harolygiad neu'u hymweliad ar y safle.

### Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan.

### Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn gwerthuso trefniadau diogelu mewn carchardai oedolion yn unol ag arweiniad atodol Estyn ar arolygu diogelu mewn darparwyr ôl-16. Gallai arolygwyr Estyn ddod ar draws tystiolaeth sy'n cyfrannu at dystiolaeth arolygu Estyn ac/neu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi o drefniadau diogelu'r lleoliad. Mae'r arweiniad atodol hwn yn amlinellu sut mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac Estyn yn ystyried trefniadau diogelu o fewn y fframweithiau priodol, ac yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer pob aelod o'r tîm.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â pherson ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl gwirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr gofnodi gwybodaeth sylfaenol am y pryder fel yr amlinellir yn ein harweiniad uchod, a rhybuddio Arolygydd Cofnodol Estyn. Rhaid i'r Arolygydd Cofnodol roi gwybod i'r canlynol:

- Llywodraethwr neu Reolwr y darparwr ac arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a gofyn iddynt ddilyn eu protocol diogelu eu hunain ar unwaith
- tîm diogelu Estyn gan ddefnyddio ein ffurflen atgyfeirio.

Nid yw Estyn yn ymchwilio i achosion neu atgyfeiriadau diogelu unigol. Gwasanaeth Carchardai AEF a'r Gwasanaeth Prawf, yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu sydd â'r cyfrifoldeb

hwn. Fodd bynnag, rhaid i arolygwyr ddilyn y protocol hwn i sicrhau bod yr awdurdodau priodol yn ymchwilio i bob honiad neu amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (AC). Wedyn, dylai'r AC gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r AC am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles dysgwyr.

Lle mae'r risgiau hyn yn achosi pryder difrifol yn ystod gweithgarwch neu ymweliadau arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad lle mae'r pryder yn ymwneud â gweithgareddau addysg, medrau a gwaith.

## Gweithgarwch arolygu craidd

### Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw gwerthusiad y darparwr o'i berfformiad ei hun a'i flaenoriaethau, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi gwerthusiad y darparwr ei hun o'i waith.

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r safonau a'r deilliannau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg, y medrau a'r gwaith y maent wedi'u cael, ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y carchar. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio ar anghenion carcharorion, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd, y safonau a gyflawnir ganddynt, a'u deilliannau.

### Y Lle Gwaith Rhithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Lle Gwaith Rhithwir' (LlGRh), ar gyfer rheoli llawer o agweddau ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr a Charchardai AEF lwytho gwybodaeth i fyny cyn ac yn ystod yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrthym mi am y broses arolygu.

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar y LlGRh. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogelwch y system. Rydym yn nodi ac yn gweithredu unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system LlGRh Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sy'n cael eu cofnodi a'u cynnal yn ddiogel o fewn cyfeirlyfr gweithredol. Mae'r system hefyd yn cynnwys nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu gwarchod, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

### Y tîm arolygu

Mae gwahanol rolau o fewn y tîm arolygu.

| Aelod o'r tîm | Esboniad | Rôl |
|---|---|---|
| Arolygydd Cofnodol (AC). Gellir cyfeirio ato hefyd fel arolygydd arweiniol Estyn | Bydd yr AC ar gyfer arolygiad yn un o'r canlynol:<br>AEF (Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – caiff AEF eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn. | Mae'r AC yn arwain a rheoli'r tîm arolygu. Mae'n cysylltu â rheolwyr y carchar a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith ei dîm. Yr AC yw'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer pawb yn ystod y rhan ar |

| | | |
|---|---|---|
| | AY (Arolygydd Ychwanegol) – mae Arolygwyr Ychwanegol fel arfer yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o ddarparwyr. | y safle o'r broses arolygu. Mae'r AC yn mynychu cyfarfodydd tîm ar y cyd sy'n cael eu cadeirio gan Garchardai AEF. |
| Dirprwy Arolygydd Cofnodol | Bydd y Dirprwy Arolygydd Cofnodol (DAC) ar gyfer arolygiad yn AEF neu'n AY. | Bydd y DAC yn cynorthwyo'r AC i sicrhau bod yr arolygiad yn cael ei gynnal yn esmwyth. Bydd yn cymryd cyfrifoldeb am ysgrifennu adran adrodd. Gallai fynd gyda'r AC neu fod yn ddirprwy i'r AC yn ystod cyfarfodydd tîm Carchar AEF. |
| Arolygwyr Tîm (AT – T3) | Pennir nifer yr arolygwyr tîm gan faint y carchar yn ogystal â ffactorau rhesymegol eraill fel nifer a dosbarthiad daearyddol safleoedd. Gallai arolygwyr tîm fod yn AEF neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi cael eu hyfforddi gan Estyn. | Gallai arolygwyr tîm gymryd cyfrifoldeb am adrodd ar dystiolaeth, a chasglu tystiolaeth, i lywio gwerthusiad y tîm am wahanol agweddau ar yr arolygiad. Mae'r AC yn cyfarwyddo a rheoli gwaith yr arolygwyr tîm. |
| Arolygydd Cymheiriaid | Mae Arolygydd Cymheiriaid yn arweinydd neu'n rheolwr mewn swydd, neu'n ymarferwr profiadol o ddarparwr addysg arall sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad Estyn ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, lle bo'n briodol. Nid oes arolygwyr cymheiriaid yn aelodau o'r tîm ym mhob tîm arolygu carchardai. Gellir defnyddio arolygwyr cymheiriaid ag arbenigedd galwedigaethol a thechnegol arbenigol yn bennaf i gasglu tystiolaeth ar addysgu a dysgu. | Mae'r arolygwyr cymheiriaid hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r AC yn cyfarwyddo a rheoli gwaith yr Arolygydd Cymheiriaid, gyda chefnogaeth gan y DAC. |
| Enwebai (o'r darparwr sy'n destun arolygiad) | Byddwn yn gwahodd darparwyr i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob un o'r darparwyr yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofyniad. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel a | Gall darparwyr fynd at yr arweiniad ar gyfer enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybodaeth weithredol ddigonol i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu ond nid oes angen iddo/iddi fod yn llywodraethwr y carchar. Mae'n arferol ar arolygiadau carchardai i'r rôl hon gael ei chyflawni gan y Pennaeth Addysg, Medrau a Gwaith neu'r Pennaeth Dysgu a Medrau. | y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac sydd ar gael trwy'r Lle Gwaith Rhithwir. |
| Cydlynydd Arolygu (CydAr) | Mae'r cydlynydd arolygu yn aelod o staff Gwasanaethau Canolog Estyn sy'n cydlynu elfennau gweinyddol yr arolygiad, yn cynnwys sefydlu'r Lle Gwaith Rhithwir (LlGRh), a gwneud y cyswllt cychwynnol gyda'r darparwr i'w hysbysu am yr arolygiad a'r alwad gyntaf gyda'r AC. | Mae'r CydAr yn rôl bwysig 'yn y cefndir', yn cydlynu elfennau gweinyddol a logistaidd yr arolygiad. Nid ydynt yn mynychu'r arolygiad ar y safle ei hun ac nid ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwerthusiad o ddarparwr. |

Gyda chaniatâd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP), gallem hefyd wahodd arolygydd / adolygydd cymheiriaid rhyngwladol o un o'r arolygiaethau addysg a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon neu Ewrop. Byddant yn gallu dod â safbwynt meincnodi rhyngwladol i'r arolygiad, hwyluso rhannu arfer effeithiol a galluogi rhwydweithio gwell gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'u cymheiriaid rhyngwladol. Mae'n ofynnol i bob un o'r arsyllwyr lynu at god ymddygiad ac arweiniad Estyn ar gyfer arsyllwyr yn ystod arolygiad.

## Cysylltu â'r darparwr cyn arolygiad craidd

Bydd swyddog arweiniol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) a Chyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) y Sector Cyfiawnder yn cael gwybod gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi am arolygiad sydd ar fin cael ei gynnal, a ph'un a fydd yr arolygiad yn un lle rhoddwyd rhybudd (bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn hysbysu'r carchar) neu'n arolygiad dirybudd. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn hysbysu'r carchar i gynnal arolygon o farn carcharorion a sefydlu amserlen elfennol. Os yw'r arolygiad yn un dirybudd, dylai'r cofnod yn rhaglen waith Estyn beidio â datgelu pa garchar fydd yn destun arolygiad.

Os yw'n arolygiad **lle rhoddwyd rhybudd**, gall yr AC gysylltu â'r Pennaeth Addysg, Medrau a Gwaith neu'r Pennaeth Dysgu yn y carchar ar ôl dyddiad y cyhoeddiad.

Os yw'n arolygiad **dirybudd**, rhaid i'r AC gytuno ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ynghylch pryd gallai Estyn gysylltu â Phennaeth Addysg, Medrau a Gwaith neu Bennaeth Dysgu'r carchar. Ni ddylem gysylltu cyn y dyddiad hwnnw.

Ym mhob achos, bydd y Cydlynydd Arolygu yn cysylltu â'r enwebai ar ôl i'r AC wneud y cyswllt cychwynnol gyda'r Pennaeth Addysg, Medrau a Gwaith / Pennaeth Dysgu i nodi trefniadau ar gyfer yr arolygiad, yn cynnwys darparu mynediad at y Lle Gwaith Rhithwir ar gyfer lanlwytho dogfennau sydd eu hangen gan yr Arolygydd Cofnodol.

Pan fydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn caniatáu cyswllt â'r carchar, bydd yr AC yn cysylltu â'r Pennaeth Addysg, Medrau a Gwaith / Pennaeth Dysgu i:

- esbonio diben yr arolygiad
- rhannu manylion am y tîm arolygwyr
- gofyn p'un a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ar gyfer y rhan gweithgarwch ar y safle yn yr arolygiad
- sefydlu p'un a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai, ac os felly, cytuno ar rôl yr enwebai ac esbonio'r broses ar gyfer cwblhau'r arweiniad i enwebeion
- trafod y trefniadau domestig ar gyfer y tîm, fel argaeledd ystafell sylfaen, sydd ar wahân i ystafell sylfaen Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, a gofyn am argaeledd cyfleusterau lluniaeth – yn aml, dim ond tegell a chwpanau, a thrafod trefniadau parcio, os oes unrhyw drefniadau
- egluro y bydd arolygwyr yn cael eu setiau eu hunain o allweddi, a chadarnhau'r trefniadau ar gyfer mynd atynt
- trefniadau ar gyfer yr adeg pan fydd y tîm yn cyrraedd y carchar, yn cynnwys unrhyw hyfforddiant allweddol, beltiau a chydau, a thaith o gwmpas y cyfleusterau lle mae angen, a sut i gyrraedd yr ystafelloedd sylfaen
- cadarnhau bod arolygwyr yn cael cliriad diogelwch ar gyfer gliniaduron yn y carchar, fel y cytunwyd gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
- trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad
- gwneud y trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth cyn-arolygiad ar ffurf electronig trwy'r Lle Gwaith Rhithwir ar y cyd â Chydlynydd Arolygu (CydAr) Estyn
- cytuno ar drefniadau i greu rhaglen dros dro ar gyfer yr arolygiad, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd â staff a charcharorion
- egluro p'un a fydd yn bosibl cysylltu â charcharorion a chyflogwyr sy'n ymgymryd â chyflogaeth oddi ar y safle, a sut gellir cyflawni hynny
- trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad gyda'r enwebai i roi sesiwn friffio i'r tîm i roi gwybod iddynt am unrhyw faterion a allai effeithio ar gynnal yr arolygiad yn esmwyth yn ystod cam gweithgarwch ar y safle o'r arolygiad
- trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad i'r darparwr nodi ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a'i gam datblygu presennol
- trefnu argaeledd tystiolaeth ategol, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr ar gyfer y gweithgarwch ar y safle
- cadarnhau y gallai'r tîm ofyn am gyfarfodydd ychwanegol neu dystiolaeth atodol wrth i'r wythnos fynd ymlaen

- sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl am ganfyddiadau'r arolygiad.

Bydd yr AC yn trafod gyda'r enwebai ac yn gofyn iddo lanlwytho'r wybodaeth ganlynol i'r Lle Gwaith Rhithwir fel arfer erbyn diwedd y diwrnod cyntaf ar ôl yr alwad ffôn gychwynnol:

- Amlinelliad o gyfundrefn y carchar
- Amserlen(ni) gweithgareddau addysg, medrau a gwaith sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cyfnod yr arolygiad, gan nodi'r union leoliadau a'r staff dan sylw
- Gwybodaeth am niferoedd y carcharorion, lleoliadau gweithgareddau, dyraniadau, ystod y ddarpariaeth a'r cyrsiau achrededig, presenoldeb presennol – bydd ffurflen yn cael ei darparu os nad yw eisoes wedi cael ei rhannu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi adeg yr hysbysiad
- Gwybodaeth am gynnydd, cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr wedi'u torri i lawr yn ôl grwpiau o ddysgwyr
- Data cyfoes am ddangosyddion perfformiad allweddol ar berfformiad y carchar yn erbyn targedau contract am y 12-18 mis diwethaf
- Y gyfran / niferoedd sy'n sicrhau cyflogaeth neu addysg a hyfforddiant wedi iddynt gael eu rhyddhau
- Adroddiad hunanasesu'r carchar i gynnwys yr adroddiad hunanasesu ar gyfer Gweithgarwch Pwrpasol / Addysg, Medrau a Gwaith
- Y cynllun gweithredu neu'r cynllun datblygu ansawdd presennol
- Gwybodaeth am lythrennedd / rhifedd poblogaeth y carchar o asesiad cychwynnol ac unrhyw ailasesiad cynnydd dilynol
- Rhestr staff yn amlinellu unrhyw arbenigeddau a chymwysterau addysgu, ac unrhyw swyddi cyfrifoldeb a ddelir
- Amlinelliad o strwythur a chyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli
- Trosolwg o'r cyrsiau a gynigir gan y darparwr
- Strategaeth ddarllen y carchar
- Unrhyw wybodaeth arall a fydd yn cynorthwyo'r AC i baratoi ar gyfer gweithgarwch ar y safle

Yn ystod y cyswllt cychwynnol, bydd yr AC hefyd yn trafod:

- rôl yr enwebai yn ystod wythnos yr arolygiad
- y dylid eu rhyddhau o unrhyw ymrwymiadau addysgu yn ystod wythnos yr arolygiad i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ystod wythnos yr arolygiad
- eu hatgoffa am yr angen i ddod â chopi o'r llawlyfr arweiniad hwn a meini prawf arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi i bob cyfarfod tîm
- ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Dylai'r AC egluro'r dyddiad y bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn gofyn am gyfraniadau ysgrifenedig Estyn at yr adroddiad. Caiff y rhain eu cynnwys yn y cyhoeddiad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, weithiau. Yn aml, mae'n fuan iawn ar ôl i'r arolygiad ddod i ben.

Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn rhannu gydag Estyn unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg y mae eu tîm blaengar o ymchwilwyr wedi'u nodi yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad. Bydd hyn yn cynnwys y canfyddiadau o holiaduron cyn-arolygiad staff a charcharorion. Gan ystyried hyn a'r blaenoriaethau y mae'r darparwr wedi'u nodi ar gyfer eu gwella a'i adroddiadau hunanasesu, ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant Estyn, er enghraifft y canfyddiadau o ymweliadau cyswllt ac adolygiadau thematig, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Dylid labelu 'Ardal y Darparwr' yn y Lle Gwaith Rhithwir ag enw'r darparwr sy'n cael ei arolygu, a chynnwys:

- Tystiolaeth wedi'i lanlwytho gan y carchar, gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu a'r cynllun datblygu ansawdd
- Amserlen y gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer carcharorion
- Dangosyddion perfformiad allweddol a data arall y gofynnwyd amdano

Dylai'r ardal 'Dogfennau cyfyngedig' yn y Lle Gwaith Rhithwir gynnwys ffolder gydag enw'r darparwr sy'n cael ei arolygu:

- Ffurflenni tystiolaeth
- Adroddiad arolygiad blaenorol
- Copi o'r arweiniad hwn
- Canfyddiadau ymlaen llaw Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
- Nodyn briffio'r AC, yn cynnwys sylwebaeth cyn-arolygiad

Dylai'r AC baratoi nodyn briffio ar gyfer y tîm sy'n cynnwys amlinelliad o gynllun ar gyfer diwrnodau wythnos yr arolygiad. Ar ôl ei gwblhau (efallai na fydd hyn yn bosibl tan y dydd Gwener cyn yr arolygiad), dylai'r AC roi'r nodyn briffio yn yr ardal gyfyngedig yn y LlGRh. Bydd yr AC yn anfon neges e-bost at y tîm a'r CydAr yn rhoi gwybod iddynt fod y nodyn briffio ar gael yn y LlGRh yn ystod y dydd Gwener cyn wythnos yr arolygiad. Dylai arolygwyr nodi y gallai fod yn ddefnyddiol cael copïau papur o'r data cryno, y SCA, canlyniadau'r holiadur, oherwydd gallai mynediad i'r rhyngrwyd fod yn gyfyngedig ar y safle.

## Yn ystod yr arolygiad

Ar ôl cyrraedd, dylai'r AC roi gwybod i Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi fod y tîm yn bresennol a ble fydd yr ystafell sylfaen.

Bydd yr AC a'r DAC yn ymuno ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer eu cyfarfod tîm cychwynnol gyda thîm rheoli'r carchar. Bydd gweddill aelodau'r tîm yn ymgyfarwyddo â'r ystafell sylfaen ac yn defnyddio'r amser i ddarllen y nodyn briffio ac ymgyfarwyddo ag unrhyw ddogfennau a ddarparwyd gan yr AC neu'r carchar.

## Cyfarfod tîm cychwynnol

Yn ystod cyfarfod tîm cychwynnol y tîm arolygu, dylai'r enwebai roi gwybod i'r tîm am unrhyw faterion a allai effeithio ar gynnal yr arolygiad yn esmwyth yn ystod cam gweithgarwch ar y safle o'r arolygiad.

Ar ôl hyn, dylai'r enwebai ddarparu datganiad sefyllfa bras ar ei flaenoriaethau strategol a'i gam datblygu presennol. Bydd y tîm yn trafod y blaenoriaethau gwella hyn gyda'r enwebai a'r cynnydd y mae'r carchar yn ei wneud yn ei waith gwella.

Yn ystod gweddill y cyfarfod tîm, bydd yr AC:

- yn rhannu canfyddiadau cychwynnol a rannwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi o'u gweithgareddau yn yr wythnos flaenorol
- yn rhannu a thrafod yr amserlen dros dro gyda'r tîm, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a thystiolaeth
- yn trafod y trefniadau ar gyfer gofyn am unrhyw dystiolaeth neu gyfarfodydd ychwanegol gyda'r tîm a'r enwebai
- yn gwneud y trefniadau ar gyfer cofnodi tystiolaeth ac adrodd yn ôl am ganfyddiadau

Bydd yr enwebai'n gadael ar ddiwedd y cyfarfod tîm.

## Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Ar ôl y cyfarfod tîm, bydd aelodau'r tîm yn cynllunio'u gweithgareddau arolygu er mwyn iddynt allu ymdrin â'r gofynion adrodd o fewn y tri maes arolygu. Bydd eu prif weithgareddau'n cynnwys:

- arsylwadau uniongyrchol o addysgu a dysgu, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu. Gallai hyn gynnwys ymweliadau ag adenydd carchar. Mae'r trefniadau hyn yn gyfrinachol i'r tîm ac ni ddylid eu rhannu â staff eraill y carchar
- ymweliad â llyfrgell y carchar
- adolygiadau o dystiolaeth ddogfennol neu electronig, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr

- craffu ar samplau o waith dysgwyr, gan gynnwys gwaith dysgwyr a gasglwyd yn ystod arsylwadau gwersi a theithiau dysgu
- adolygu ymatebion i'r arolwg gan staff a charcharorion a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn ystod y cyfnod cyn yr arolygiad
- trafodaethau â charcharorion, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwi uniongyrchol o safonau, medrau, gwaith ymarferol ac ysgrifenedig dysgwyr, ble bynnag y bo modd, i gefnogi eu gwerthusiadau o addysgu a dysgu. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chasglu trwy arsylwi sesiynau a theithiau dysgu, lle mae arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym trwy nifer o sesiynau addysgu a hyfforddi. Er enghraifft, ar deithiau dysgu, gallai arolygwyr fwrw golwg ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth, cael sgyrsiau gyda dysgwyr dethol am eu gwaith, neu gael trafodaethau ag athrawon unigol am gynnydd dysgwyr yn eu sesiynau hyfforddi a sut maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd arolygwyr yn siarad â dysgwyr mewn sesiynau dysgu, mewn grwpiau ffocws neu leoliadau anffurfiol, lle bo'n briodol. Bydd yr AC hefyd yn trefnu gyda'r enwebai i aelod o'r tîm gyfarfod â grŵp o garcharorion i drafod eu profiadau. Byddant bob amser yn dilyn protocolau diogelwch.

Bydd sgyrsiau â dysgwyr yn rhoi cyfle i archwilio gwybodaeth dysgwyr am eu gwaith a'u medrau, a'u dealltwriaeth ohonynt, yn ogystal â'u hamgyffrediadau o'u cynnydd a'u profiadau dysgu. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i gael amcan o ba mor dda mae'r carchar yn cefnogi carcharorion ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw, gan gynnwys sut mae'n cefnogi eu cyfranogiad mewn addysg, medrau a gwaith.

Dylai'r darparwr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a'r cynnydd a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau diagnostig cychwynnol a dilynol o fedrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, neu asesiadau eraill o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â'u mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y carchar a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

### Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

## Deialog broffesiynol

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol gydag ymarferwyr. Gallai'r ddeialog hon gynnwys cyfarfod ag athrawon unigol, yn aml yn eu hystafelloedd dosbarth, i drafod y modd y maent yn cynllunio ac yn asesu gwaith dysgwyr. Efallai bydd arolygwyr eisiau cyfarfod â grwpiau o staff cymorth, er enghraifft i ddeall trefniadau'r carchar ar gyfer pennu carcharorion i weithgareddau, neu i gynorthwyo dysgwyr ag ADY. Gallai arolygwyr benderfynu cyfarfod ag arweinwyr, naill ai'n unigol neu fel grŵp, i ddeall effaith arweinyddiaeth y darparwr ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i ennill tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr y gellir ei thriongli â ffynonellau tystiolaeth eraill. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau interim sy'n dod i'r amlwg ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn, ar ôl myfyrio arnynt, er enghraifft ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â charcharorion, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi sesiwn, bydd arolygwyr yn cynnig deialog broffesiynol fer gyda'r aelod o staff ar y dysgu a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth bob amser fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wnânt yn ystod y sesiwn a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gweithgaredd penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon, hyfforddwyr neu aseswyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu. Ble bynnag y bo modd, dylai arolygwyr gyflwyno'u hunain yn fras i'r aelod staff ac esbonio'u bod yn cynnal gweithgarwch taith ddysgu yn hytrach na sesiwn arsylwi lawn ac y bydd hyn yn golygu na fydd modd iddynt gynnig deialog broffesiynol y tro hwn.

## Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, dibynadwy, dilys a chorfforaethol am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd gwerthusiadau ym mhrosesau hunanwerthuso'r darparwr a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth

- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Tuag at ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn cynnal cyfarfod i adolygu'r gwerthusiadau drafft. Diben y cyfarfod hwn yw safoni canfyddiadau a llunio barn ar y cyd am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar gyfer pob maes arolygu yn y darparwr. Bydd yr enwebai'n cael cyfle llawn i gymryd rhan yn y cyfarfod hwn.

### Adborth dyddiol a chyfarfodydd cadw mewn cysylltiad

Bydd yr enwebai yn ymuno â chyfarfodydd tîm Estyn trwy gydol yr wythnos. Mae ei bresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn sicrhau ei fod yn cael gwybod am y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a gasglwyd gan y tîm wrth i'r arolygiad fynd rhagddo, ac yn helpu nodi p'un a oes angen unrhyw wybodaeth, tystiolaeth neu gyfarfodydd ychwanegol. Y cyfarfodydd hyn fydd y brif ffynhonnell adborth dros dro.

Bydd yr AC ac/neu'r Dirprwy AC yn rhannu crynodeb o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan y tîm ar lafar gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn ystod eu cyfarfodydd tîm bob dydd gyda'r timau arolygu ehangach. Bydd yr AC yn cyflwyno crynodeb ysgrifenedig o bwyntiau allweddol a gwerthusiadau meysydd arolygu i arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar ddiwrnod olaf yr arolygiad ar amser i'w gytuno rhyngddynt ar gyfer cyfarfod safoni Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Bydd y crynodeb ysgrifenedig hwn yn ffurfio sylfaen y drafodaeth ynghylch canfyddiadau Estyn ar gyfer gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith fel rhan o'r broses safoni ar gyfer Gweithgarwch Pwrpasol.

Bydd yr AC a'r Dirprwy AC yn cynnal sesiwn fer cadw mewn cysylltiad â'r enwebai ar ddiwedd pob diwrnod cyn gadael safle'r carchar.

Bydd y tîm hefyd yn nodi unrhyw feysydd pryder i helpu bod yn ffocws ar gyfer gwelliant y darparwr, a chipluniau arfer effeithiol neu ddiddorol i'w hamlygu yn yr adroddiad.

### Nodi pryderon

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu'n ystyried p'un a yw'r darparwr yn achosi pryder. Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag agwedd neu agweddau ar addysg a hyfforddiant sy'n annigonol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn datgan: 'mae ansawdd addysg drydyddol, neu ansawdd cwrs addysg drydyddol, yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rheini sy'n cael yr addysg neu'n ymgymryd â'r cwrs.'[2]

Dyma'r rhesymau posibl dros nodi bod darparwr yn achosi pryder:

- mae cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni dros gyfnod neu ddirywiad sylweddol

[2] Adran 52 (3) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

mewn cyflawniad dros gyfnod

- os nad yw'r darparwr yn rhoi safon dderbyniol o addysg a hyfforddiant i'w ddysgwyr
- os nad yw'r darparwr yn perfformio cystal o gryn dipyn na'r hyn y gellid yn yr holl amgylchiadau ddisgwyl iddo berfformio yn rhesymol
- os nad yw'r bobl sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r darparwr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol
- pryderon difrifol ynghylch diogelu
- nid yw'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad dysgwyr

Dylai ein harolygwyr gofio bob amser bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ôl-16 ar y deilliannau ar gyfer carcharorion.

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwêl, a gallu cadarnhau ei farnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os yw'r dystiolaeth yn awgrymu casgliad bod meysydd pryder, dylid amlinellu'r rhain yn nhrefn blaenoriaeth fel Pryderon Blaenoriaethol a Phryderon.

**Pryderon blaenoriaethol** yw'r meysydd pryder y mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw iddynt ar unwaith. Maent wedi'u cynllunio i helpu arweinwyr i flaenoriaethu meysydd gwendid, a dylid mynd i'r afael â nhw yn gyntaf er mwyn gwella deilliannau ar gyfer carcharorion.

Mae **meysydd pryder** yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol wrth drin carcharorion, a'r amodau ar eu cyfer. I fynd i'r afael â nhw, bydd angen eu newid o ran arfer ac/neu ailgyfeirio adnoddau.

Bydd pryderon blaenoriaethol, ynghyd â meysydd pryder a ddewiswyd, yn cael eu hadolygu mewn adolygiad annibynnol o gynnydd neu arolygiad. Dylai'r ffocws fod ar b'un a yw'r pryder wedi cael ei ddatrys a deilliannau wedi gwella.

### Barn drosfwaol

Bydd y tîm arolygu'n cynnig barn drosfwaol sy'n ystyried y cydbwysedd o ran cryfderau, meysydd i'w datblygu a phryderon a nodwyd yn ystod yr arolygiad, gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi isod:

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn dda.**

Nid oes tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn weddol dda.**

Mae tystiolaeth o ddeilliannau andwyol ar gyfer carcharorion mewn nifer fach o feysydd yn unig. I'r mwyafrif, nid oes pryderon sylweddol. Mae gweithdrefnau i ddiogelu deilliannau ar waith.

**Nid yw deilliannau ar gyfer carcharorion yn ddigon da.**

Mae tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn llawer o feysydd neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os nad ymdrinnir â nhw, yn debygol o ddod yn feysydd pryder difrifol.

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn wael.**

Mae tystiolaeth fod y deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan arfer bresennol. Mae methiant i sicrhau hyd yn oed triniaeth ac/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen camau adferol ar unwaith.

Bydd y farn drosfwaol a gynigir gan dîm Estyn yn llywio barn gyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Gweithgarwch Pwrpasol, ac yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad arolygu.

O dan yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn gwerthuso gwaith y darparwr yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar y pryd. Ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto neu benodi staff yn ddiweddar, fel uwch arweinydd, cyfarwyddwr neu lywodraethwr newydd, neu fod y darparwr yn datgan y gall fynd i'r afael â meysydd pryder yn gyflym. Mae hyn oherwydd, yn yr achosion hyn, ni fydd modd gweld effaith y gwelliannau eto. Rhaid i arolygwyr farnu perfformiad a deilliannau'r darparwr ar hyn o bryd yn hytrach na bwriadau a chynlluniau damcaniaethol neu dda, a rhagolwg dyheadol.

Dylai trafodaethau'r tîm ystyried unrhyw ffactorau lliniarol i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y gwerthusiadau cyn gwneud penderfyniad.

Pan gaiff pryderon difrifol eu nodi yn ystod arolygiad, gallai Prif Arolygydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi benderfynu cyflwyno hysbysiad brys yn amlinellu ei bryderon a'r rhesymau drostynt ac/neu gynnal adolygiad cynnydd annibynnol i asesu i ba raddau y

mae'r carchar wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. I gael mwy o wybodaeth am hysbysiad brys ac adolygiadau cynnydd annibynnol, gweler: https://hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/uns-and-irps/

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i'r Pennaeth Addysg, Medrau a Gwaith, y Pennaeth Dysgu a Medrau a llywodraethwr / cyfarwyddwr y carchar neu uwch arweinydd sy'n goruchwylio darpariaeth addysg, medrau a gwaith. Bydd yr adborth yn canolbwyntio ar y prif werthusiadau ar gyfer pob un o'r tri maes arolygu, a'r rhesymau dros y rhain.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a llywodraethwyr glywed canfyddiadau'r tîm a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys y pryderon a'r pryderon blaenoriaethol a nodwyd ganddynt. Dylai'r Arolygydd Cofnodol esbonio i'r darparwr y gellir egluro materion, ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Fodd bynnag, diben y cyfarfod yw bod y darparwr yn deall yn hytrach na thrafod canfyddiadau'r tîm arolygu.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes unrhyw arfer effeithiol yn y carchar sy'n werth ei rhannu â charchardai eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn cynnwys 'ciplun' o'r arfer hon yn rhan o'r adroddiad arolygu.

Mae'r holl werthusiadau a adroddwyd yn ystod arolygiad gan dîm arolygu Estyn yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Maent yn gyfrinachol i staff ac uwch arweinwyr y carchar. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn cyhoeddi'r adroddiad ar eu gwefan.

## Cwynion am y broses arolygu

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â'r broses arolygu neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r carchar, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gyda'r Arolygydd Cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r carchar aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. O bryd i'w gilydd, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol ar y safle yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i ddarparwyr yn ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ar ein gwefan.

Fodd bynnag, mae rhai pethau nad ydym yn mynd i'r afael â nhw trwy ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, er enghraifft cwynion, neu heriau, am werthusiadau neu

benderfyniadau a wnaed ar ôl arolygiad neu adolygiad. Mae hyn oherwydd bod y carchar yn cael cyfle cyn ac yn ystod arolygiad i ddarparu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i'r tîm arolygu lunio'i werthusiadau yn gywir ac yn deg.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r Arolygydd Cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol ar ffurf llythyr sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r darparwr. Bydd y llythyr yn cael ei rannu â llywodraethwr neu gyfarwyddwr y carchar, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn llunio'r llythyr o fewn graddfeydd amser cytûn y sector.

Bydd yr adroddiad yn destun prosesau sicrhau ansawdd Estyn a rhai mewnol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac yn ffurfio cyfraniad Estyn at yr adroddiad arolygu a gyhoeddir ar wefan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Byddwn yn cyhoeddi ein cyfraniad at adroddiad arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar ein gwefan ar y cyd â chyhoeddiad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi o'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn rhannu adroddiadau yn ddwyieithog lle mae darparwyr wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar ein fframwaith arolygu a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r arolygiad**

**Disgrifwyr barnau a thermau Estyn i ddisgrifio cyfrannau**

**Prif werthusiadau**

Maes Arolygu 1 – Addysgu a dysgu
Maes Arolygu 2 – Lles, gofal, cymorth ac arweiniad
Maes Arolygu 3 – Arwain a gwella

**Beth sydd angen ei wella, yn nhrefn blaenoriaeth**

Bydd y prif werthusiadau'n cynnwys testun naratif o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a chipluniau ar arfer ddiddorol neu effeithiol.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gyda'r enwebai yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd drylwyr i bob un o'n harolygiadau. Yr Arolygydd Cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, bydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn sicrhau ansawdd yr adroddiad a sail y dystiolaeth. Creffir ar sail y dystiolaeth lawn a'i pharu i destun yr adroddiad, i sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd. Yn ychwanegol, mae'r broses sicrhau ansawdd yn ystyried priodoldeb y pryderon a'r pryderon blaenoriaethol. Yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gellir diwygio, dileu neu ychwanegu pryderon.

Pryd bynnag na fydd deilliannau arolygiad yn weddol dda neu'n wael, bydd y Cyfarwyddwr Strategol, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cynorthwyol, yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â sail y dystiolaeth, ar ran PAEF.

Yn ychwanegol, rydym yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Byddwn yn sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau arolygu ysgrifenedig cyn eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.